

Good medical
practice

2024

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol

Arfer meddygol da



Arfer meddygol da

Cyhoeddwyd y canllawiau hyn ar 22 Awst 2023.

Daeth y canllawiau hyn i rym ar 30 Ionawr 2024

Diweddarwyd y canllawiau hyn ddiwethaf ar 13 Rhagfyr 2024.

Gallwch ddod o hyd i'r fersiwn diweddaraf o'n holl safonau proffesiynol yn www.gmc-uk.org/guidance.

Cynnwys

<i>Arfer meddygol da</i>	1
Gwybodaeth am Arfer meddygol da.....	4
Beth yw <i>Arfer meddygol da</i> ?	4
Sut i ddefnyddio <i>Arfer meddygol da</i>	4
Beth yw'r safonau proffesiynol?	5
Sut y mae'r safonau proffesiynol yn berthnasol ar gyfer ailddilysu	5
Sut y mae'r safonau proffesiynol yn ymwneud â'n gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer	5
Dyletswyddau gweithwyr meddygol proffesiynol sydd wedi cofrestru gyda'r GMC	7
Maes 1: Gwybodaeth, sgiliau a datblygu	8
Cyflwyniad	8
Bod yn gymwys	8
Darparu gofal clinigol da	8
Cynnal, datblygu a gwella eich perfformiad	10
Rheoli adnoddau mewn ffordd effeithiol a chynaliadwy	11
Maes 2: Cleifion, partneriaeth a chyfathrebu	12
Cyflwyniad	12
Trin cleifion yn deg a pharchu eu hawliau	12
Trin cleifion gyda charedigrwydd, cwrteisi a pharch	13
Cynorthwyo cleifion i wneud penderfyniadau am driniaeth a gofal	13
Rhannu gwybodaeth gyda chleifion.....	14
Cyfathrebu gyda'r rhai sy'n agos at glaf.....	15
Gofalu am y claf cyfan.....	15
Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o ddioddef niwed	16
Helpu mewn argyfyngau	16
Sicrhau bod cleifion sy'n peri risg niwed i eraill yn gallu manteisio ar ofal priodol	16
Bod yn agored os bydd pethau yn mynd o le	16
Maes 3: Cydweithwyr, diwylliant a diogelwch.....	18
Cyflwyniad	18
Trin cydweithwyr gyda charedigrwydd, cwrteisi a pharch	18

Cyfrannu at amgylchedd gwaith a hyfforddi cadarnhaol	19
Dangos ymddygiad arwain	20
Cyfrannu at barhad gofal	21
Dirprwyo mewn ffordd ddiogel a phriodol	22
Cofnodi eich gwaith mewn ffordd glir, manwl a darllenadwy.....	22
Cadw cleifion yn ddiogel	23
Ymateb i risgiau diogelwch	24
Rheoli risgiau a achosir gan eich iechyd.....	24
Maes 4: Ymddiriedaeth a phroffesiynoldeb	26
Cyflwyniad.....	26
Gweithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb.....	26
Cynnal terfynau proffesiynol.....	26
Cyfathrebu fel gweithiwr meddygol proffesiynol	27
Rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau	28
Cydweithredu gyda gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol	28
Troednodiadau.....	30

Gwybodaeth am Arfer meddygol da

Beth yw *Arfer meddygol da*?

Mae *Arfer meddygol da* yn nodi'r egwyddorion, y gwerthoedd a'r safonau gofal ac ymddygiad proffesiynol a ddisgwylir gan bob meddyg, cydymaith meddygol (PA) a chydymaith anesthesia sydd wedi cofrestru gyda ni. Mae'n fframwaith moesegol, sy'n cynorthwyo gweithwyr meddygol proffesiynol i ddarparu gofal diogel o safon da, er budd cleifion.

Rydym yn cydweithio'n agos gyda gweithwyr meddygol proffesiynol, cleifion ac eraill i ddatblygu *Arfer meddygol da*, felly mae'n gytundeb a rennir am yr hyn y dylai'r safonau proffesiynol fod. Mae'r safonau yn *Arfer meddygol da* a'r canllawiau manylach yn gymwys i bob gweithiwr meddygol proffesiynol i'r graddau y maent yn berthnasol i ymarfer yr unigolyn.

Mae *Arfer meddygol da* yn fframwaith moesegol, sy'n cefnogi gweithwyr meddygol proffesiynol i ddarparu gofal diogel i safon dda, er lles cleifion. Nid yw'n gosod safonau ar gyfer gwybodaeth, sgiliau na galluoedd proffesiynol: mae'r rhain i'w cael yn ein safonau addysgol.

Rhennir *Arfer meddygol da* yn bedwar maes er mwyn ei gwneud yn haws ei ddefnyddio. Mae pob maes yr un mor bwysig wrth ddisgrifio beth yw arfer da.

Sut i ddefnyddio *Arfer meddygol da*

Eich cyfrifoldeb chi yw bod yn gyfarwydd ag *Arfer meddygol da* a'r safonau proffesiynol ynddo, ble bynnag y byddwch yn ymarfer, beth bynnag fo eich maes meddygol neu leoliad eich ymarfer.

Ond nid set o reolau ydyw. Rhaid i chi ddefnyddio eich barn broffesiynol i weithredu'r safonau yn *Arfer meddygol da* i'ch ymarfer o ddydd i ddydd. Mae hyn yn golygu ystyried pa rai o'r safonau proffesiynol sy'n berthnasol i'r amgylchiadau penodol yr ydych chi'n eu hwynebu, a defnyddio eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad i'w dilyn yn y cyd-destun hwnnw.

Os byddwch yn gwneud hyn, yn gweithredu gydag ewyllys da ac er budd cleifion, byddwch yn gallu esbonio a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd.

Rydym yn defnyddio'r termau 'rhaid i chi' a 'dylech chi' yn y ffyrdd canlynol.

- Defnyddir 'rhaid i chi' ar gyfer dyletswydd gyfreithiol neu foesegol y mae disgwyl i chi ei chyflawni (neu fod yn gallu cyfiawnhau penderfyniad i beidio ei chyflawni).
- Defnyddir 'dylech chi' ar gyfer dyletswyddau neu egwyddorion:
 - nad ydynt efallai yn berthnasol i chi neu'r sefyllfa yr ydych ynddi ar hyn o bryd, neu
 - nad ydych efallai yn gallu cydymffurfio â nhw oherwydd ffactorau y tu hwnt i'ch rheolaeth.

Beth yw'r safonau proffesiynol?

Arfer meddygol da yw ein canllawiau craidd ar safonau proffesiynol. Caiff ei ategu gan amrywiaeth o ganllawiau mwy manwl sy'n ymhelaethu ar rai o'r safonau a nodir yn *Arfer meddygol da*.

Pan fyddwn yn defnyddio'r term 'safonau proffesiynol', rydym yn golygu *Arfer meddygol da* a'r canllawiau manylach.

Sut y mae'r safonau proffesiynol yn berthnasol ar gyfer ailddilysu

Mae ailddilysu yn eich cynorthwyo i feddwl am eich ymarfer a datblygu eich ymarfer, mae'n ysgogi gwelliant ym maes llywodraethu clinigol, ac mae'n rhoi hyder i'ch cydweithwyr a'ch cleifion eich bod yn cadw at y datblygiadau diweddaraf.

Rhaid i chi¹ ymgysylltu â systemau llywodraethu clinigol lleol yn barhaus, gan gynnwys cymryd rhan mewn arfarniad blynyddol, a chasglu gwybodaeth yn unol â'n *canllawiau ar wybodaeth ategol ar gyfer ailddilysu*. Bydd hyn yn dangos eich bod yn gweithio yn unol â'r egwyddorion, y gwerthoedd a'r safonau gofal, a'r ymddygiad a nodir yn y safonau proffesiynol.

Sut y mae'r safonau proffesiynol yn ymwneud â'n gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer

Mae'r safonau proffesiynol yn disgrifio arfer da, ac ni fydd pob achos o wrodd oddi wrthynt yn cael ei ystyried yn ddifrifol.

Pan fynegir pryder gyda ni am feddyg, cydymaith meddygol (PA) neu gydymaith anesthesia, rhaid i ni asesu a yw unigolyn yn peri unrhyw risg presennol neu barhaus i un elfen neu fwy sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd:

- diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd
- hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau meddygol, a
- hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol cywir ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny.

¹ Nid yw hyn yn gymwys i feddygon ar y gofrestr feddygol heb drwydded i ymarfer.

Byddwn yn gwneud hyn trwy ystyried y canlynol.

- a** Pa mor ddifrifol yw'r pryder. Mae hyn yn cynnwys ystyried i ba raddau y mae unrhyw achos o wyro oddi wrth y safonau proffesiynol a ddisgwylir a/neu effaith cyflwr iechyd gweithiwr meddygol proffesiynol ar eu gallu i ymarfer yn ddiogel. Mae'n cynnwys ystyried unrhyw ffactorau penodol a allai effeithio ar ddifrifoldeb y sefyllfa hefyd, megis ymddygiad bwriadol neu barhaus, cam-drin grym, ac a yw'r ymddygiad neu'r perfformiad gwael y mae'r pryder yn ymwneud ag ef yn ddigwyddiad untro neu a yw wedi digwydd fwy nag unwaith.
- b** Unrhyw gyd-destun perthnasol y gallai effeithio ar risg, er enghraifft ffactorau systemau a ffactorau rhyngpersonol yn amgylchedd gwaith y gweithiwr meddygol proffesiynol neu eu rôl neu lefel eu profiad.
- c** Sut ymatebodd y gweithiwr meddygol proffesiynol i'r pryder, gan gynnwys tystiolaeth o ddirnadaeth ac adferiad.

Ar ôl i ni asesu'r risg, bydd angen i ni ystyried a oes angen cymryd camau rheoliadol wrth ymateb i'r pryder. Gallwch ddarllen mwy am ein proses a'r mathau o gamau y gallai fod angen i ni eu cymryd ar ein tudalennau gwe am Addasrwydd i ymarfer.

Dyletswyddau gweithwyr meddygol proffesiynol sydd wedi cofrestru gyda'r GMC

Rhaid i gleifion allu ymddiried mewn gweithwyr meddygol proffesiynol gyda'u bywydau a'u hiechyd. Er mwyn cyfiawnhau'r ymddiriedaeth honno, rhaid i chi roi'r pwys mwyaf ar ofal eich cleifion, a bodloni'r safonau a ddisgwylir gennych ym mhob un o'r pedwar maes.

Gwybodaeth, sgiliau a datblygiad

- Darparu ymarfer a gofal o safon dda, a gweithio o fewn eich cymhwysedd.
- Cadw eich gwybodaeth a'ch sgiliau yn gyfredol.

Cleifion, partneriaeth a chyfathrebu

- Parchu urddas pob claf a'u trin fel unigolyn.
- Gwrando ar gleifion a gweithio mewn partneriaeth â nhw, a'u cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal.
- Diogelu gwybodaeth bersonol cleifion rhag cael ei datgelu mewn ffordd amhriodol.

Cydweithwyr, diwylliant a diogelwch

- Gweithio gyda chydweithwyr mewn ffyrdd sy'n gwasanaethu buddiannau cleifion orau, gan fod yn fodlon arwain neu ddilyn fel y bydd yn ofynnol dan yr amgylchiadau.
- Bod yn fodlon rhannu eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad gyda chydweithwyr, boed hynny mewn ffordd anffurfiol neu trwy addysgu, hyfforddi neu fentora.
- Trin pobl gyda pharch a helpu i greu amgylchedd gwaith a hyfforddi sy'n dosturiol, sy'n gefnogol ac sy'n deg, lle y bydd pawb yn teimlo'n ddiogel i ofyn cwestiynau, trafod camgymeriadau a mynegi pryderon.
- Gweithredu yn ddi-oed os byddwch yn credu y gallai diogelwch neu urddas cleifion gael ei beryglu'n ddifrifol.
- Gofalu am eich anghenion iechyd a lles eich hun, gan gydnabod a chymryd camau priodol os nad ydych yn ffit i weithio.

Ymddiriedaeth a phroffesiynoldeb

- Gweithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb, a bod yn agored os bydd pethau yn mynd o le.
- Diogelu a hyrwyddo iechyd cleifion a'r cyhoedd.
- Peidio byth â gwahaniaethu'n annheg yn erbyn cleifion neu gydweithwyr.

-
- Peidio byth â chamddefnyddio ymddiriedaeth cleifion ynoch chi neu ymddiriedaeth y cyhoedd yn eich proffesiwn.

Maes 1: Gwybodaeth, sgiliau a datblygu

Cyflwyniad

Mae arfer meddygol yn daith oes. Mae bod yn ymwybodol o'r datblygiadau cymdeithasol, cyfreithiol a thechnolegol sy'n newid yn gyflym yn golygu dysgu sgiliau newydd tra'n cynnal rhai eraill. Mae rhannu gwybodaeth – a enillir trwy gyfrwng gwaith ymchwil ac arloesi, yn ogystal â phrofiad – yn rhan sylfaenol o arfer da.

Mae gweithwyr meddygol proffesiynol da yn gymwys, maent yn cadw eu gwybodaeth a'u sgiliau yn gyfredol ac maent yn darparu gofal ac arfer o safon da. Maent yn ymdrechu i ddatblygu a gwella eu perfformiad proffesiynol. Maent yn myfyrio'n rheolaidd ar eu safonau ymarfer ac yn defnyddio adborth a thystiolaeth i feithrin dirnadaeth bersonol a phroffesiynol.

Bod yn gymwys

- 1 Rhaid i chi fod yn gymwys ym mhob agwedd ar eich gwaith, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, rolau arwain neu reoli ffurfiol, ymchwil ac addysgu.
- 2 Rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn terfynau eich cymhwysedd. Rhaid i chi beidio ag ymarfer oni bai dan lefel o oruchwyliaeth sy'n briodol i'ch rôl, gwybodaeth, sgiliau a hyfforddiant, a'r dasg a gyflawnir gennych.
- 3 Rhaid i chi fod yn gadw at y canllawiau a'r datblygiadau diweddaraf sy'n effeithio ar eich gwaith.
- 4 Rhaid i chi ddilyn y gyfraith, ein canllawiau ar safonau proffesiynol, a rheoliadau eraill sy'n berthnasol i'ch gwaith.
- 5 Rhaid eich bod yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol er mwyn darparu gofal ac arfer o safon da yn y DU.

Darparu gofal clinigol da

- 6 Rhaid i chi ddarparu gofal ac arfer o safon da. Os byddwch yn asesu, yn rhoi diagnosis neu'n trin cleifion, rhaid i chi weithio mewn partneriaeth â nhw i asesu eu hanghenion a'u

blaenoriaethau. Rhaid i'r ymchwiliad neu'r driniaeth y byddwch yn ei chynnig, yn ei darparu neu'n ei threfnu fod yn seiliedig ar yr asesiad hwn, ac ar eich barn glinigol am effeithiolrwydd tebygol y dewisiadau o ran triniaethau.

7 Wrth ddarparu gofal clinigol, rhaid i chi:

- a** asesu cyflwr(cyflyrau) claf mewn ffordd ddigonol, gan ystyried eu hanes, gan gynnwys
 - i. symptomau
 - ii. ffactorau seicolegol, ysbrydol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol perthnasol
 - iii. safbwyntiau, anghenion a gwerthoedd y claf
- b** cynnal archwiliad corfforol yn ôl yr angen
- c** darparu (neu drefnu) cyngor, ymchwiliad neu driniaeth addas yn brydlon, yn ôl yr angen
- d** cynnig, darparu neu roi presgripsiwn am gyffuriau neu driniaeth (gan gynnwys presgripsiynau rheolaidd) dim ond pan fydd gennych chi wybodaeth ddigonol am iechyd y claf a phan fyddwch yn fodlon y bydd y cyffuriau neu'r driniaeth yn bodloni eu hanghenion
- e** cynnig, darparu neu roi presgripsiwn am driniaeth effeithiol yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael
- f** dilyn ein canllawiau mwy manwl ar safonau proffesiynol, *Arfer da wrth gynnig, presgripsiynu, darparu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau*, os ydych yn presgripsiynu
- g** ymgynghori â chydweithwyr neu geisio cyngor gan eich clinigydd goruchwyllo, pan fo hynny'n briodol
- h** cyfeirio claf at ymarferydd arall sy'n meddu ar gymwysterau addas pan fydd hyn yn bodloni eu hanghenion.

8 Os yw hynny'n berthnasol i'ch maes ymarfer, rhaid i chi ddilyn ein *Canllawiau i feddygon sy'n cynnig ymyriadau cosmetig*.

Cynnig ymgynghoriadau o bell

- 9** Rhaid i chi ddarparu gofal clinigol diogel ac effeithiol, boed hynny wyneb yn wyneb, neu ar ffurf ymgynghoriadau o bell dros y ffôn, drwy gyswllt fideo neu wasanaethau ar-lein eraill.

Os na allwch ddarparu gofal diogel trwy gyfrwng y dull ymgynghori yr ydych yn ei ddefnyddio, dylech gynnig dewis amgen os bydd un ar gael, neu gyfeirio at wasanaethau eraill.

Ystyried cyfleoedd ymchwil

- 10** Mae ymchwil yn hanfodol er mwyn gwella ein dealltwriaeth o gyflyrau iechyd, a chynyddu'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer gweithgarwch atal, triniaeth a gofal effeithiol. Dylech ystyried cyfleoedd i gynnal neu gymryd rhan mewn gwaith ymchwil a allai gynnig budd i gleifion presennol a/neu yn y dyfodol, a helpu i wella iechyd y boblogaeth. Dylech ddweud wrth gleifion os ydych yn ymwybodol o gyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn gwaith ymchwil priodol.

Cynnal, datblygu a gwella eich perfformiad

- 11** Rhaid i chi gadw'ch gwybodaeth a'ch sgiliau proffesiynol yn gyfredol.
- 12** Pan fyddwch yn ymuno â sefydliad, neu pan fydd eich rôl yn newid yn sylweddol drwy gydol eich gyrfa, dylech fod yn fodlon chwilio am, a chymryd rhan mewn cyfleoedd cymorth strwythuredig a gynigir gan eich cyflogwr neu'ch corff contractio, megis cynlluniau mentora neu hyfforddi.
- 13** Rhaid i chi gymryd camau i fonitro, cynnal, datblygu a gwella eich perfformiad ac ansawdd eich gwaith, gan gynnwys cymryd rhan mewn systemau sicrhau ansawdd a gwella ansawdd er mwyn hyrwyddo diogelwch cleifion ar draws cwrpas cyfan eich ymarfer.

Mae hyn yn cynnwys:

- a** cyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau ynghylch gwella ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau
- b** cymryd rhan mewn adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd o'ch gwaith, a gwaith eich tîm, ac ymateb mewn ffordd adeiladol i'r canlyniadau, gan gymryd camau i fynd i'r afael â phroblemau, ac ymgymryd â hyfforddiant pellach yn ôl yr angen
- c** cymryd rhan mewn hyfforddiant a/neu ddatblygiad proffesiynol parhaus yn rheolaidd
- d** myfyrio yn rheolaidd ar eich safonau ymarfer a'r gofal yr ydych chi'n ei ddarparu, gan gynnwys
 - i.** myfyrio ar unrhyw adborth adeiladol sydd ar gael i chi

-
- ii. ystyried sut y mae'ch profiad mewn bywyd, eich diwylliant a'ch credoau yn dylanwadu ar eich rhyngweithio gydag eraill a sut y gallai effeithio ar y penderfyniadau yr ydych yn eu gwneud a'r gofal yr ydych yn ei ddarparu.

Rheoli adnoddau mewn ffordd effeithiol a chynaliadwy

- 14** Rhaid i chi wneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael ichi, a darparu'r gwasanaeth gorau ag y bo modd, gan ystyried eich cyfrifoldebau tuag at gleifion a'r boblogaeth ehangach.
- 15** Dylech ddewis datrysiadau cynaliadwy pan fyddwch yn gallu gwneud hynny, ar yr amod nad yw'r rhain yn peryglu safonau gofal. Dylech ystyried cefnogi mentrau i leihau effaith amgylcheddol gofal iechyd.

Maes 2: Cleifion, partneriaeth a chyfathrebu

Cyflwyniad

Gall agwedd proffesiynol meddygol gael effaith barhaol ar glaf. Gall trin cleifion gyda charedigrwydd, tosturi a pharch siapio eu profiad o ofal yn aruthrol.

Mae gweithwyr meddygol proffesiynol da yn cydnabod bod cleifion yn unigolion sydd ag anghenion amrywiol, ac nid ydynt yn rhagdybio'r dewisiadau neu'r canlyniadau y bydd claf yn eu ffafrio. Maent yn gwrandao ar gleifion ac yn gweithio mewn partneriaeth â nhw. Maent yn gwneud eu gorau i sicrhau bod pob claf yn cael gofal a thriniaeth dda, a fydd yn eu cynorthwyo i fyw bywyd mor dda ag y bo modd, beth bynnag fo eu salwch neu eu hanabledd.

Trin cleifion yn deg a pharchu eu hawliau

- 16** Rhaid i chi gydnabod a pharchu urddas pob claf a'u hawl i breifatrwydd.
- 17** Os yw'n berthnasol i'ch ymarfer, rhaid i chi ddilyn ein canllawiau mwy manwl ar *Archwiliadau personol a gwarchodwyr*.
- 18** Rhaid i chi gydnabod hawl claf i ddewis a ydynt yn dymuno derbyn eich cyngor neu beidio, a pharchu eu hawl i geisio ail farn.
- 19** Rhaid i chi drin cleifion yn deg. Rhaid i chi beidio â gwahaniaethu yn eu herbyn na chaniatáu i'ch safbwyntiau personol effeithio ar eich perthynas gyda nhw, na'r driniaeth rydych yn ei darparu neu'n ei threfnu. Rhaid i chi beidio â gwrthod neu oedi triniaeth oherwydd eich bod yn credu bod gweithredoedd neu ddewisiadau claf wedi cyfrannu at eu cyflwr.
- 20** Rhaid i chi roi blaenoriaeth i gleifion ar sail eu hangen clinigol os yw'r penderfyniadau hyn o fewn eich grym. Os bydd adnoddau, polisïau neu systemau annigonol yn eich atal rhag gwneud hyn – ac os y gallai diogelwch neu urddas cleifion gael ei beryglu'n ddifrifol o ganlyniad – rhaid i chi ddilyn y canllawiau ym mharagraff 75.
- 21** Os oes gennych chi wrthwynebiad cydwybodol i driniaeth benodol, rhaid i chi sicrhau nad yw'r ffordd yr ydych yn rheoli hyn yn rhwystro claf rhag cael mynediad at ofal priodol i ddiwallu eu hanghenion. Rhaid i chi ddilyn yr arweiniad ym mharagraff 87 a'n canllawiau manylach ar *Gredoau personol ac arfer meddygol*.
- 22** Rhaid i chi drin gwybodaeth am gleifion fel gwybodaeth gyfrinachol, gan gynnwys ar ôl marwolaeth claf. Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau mwy manwl ar *Gyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion*.

Trin cleifion gyda charedigrwydd, cwrteisi a pharch

- 23** Rhaid i chi drin cleifion gyda charedigrwydd, cwrteisi a pharch. Nid yw hyn yn golygu cytuno i bob cais (gweler *paragraff 7d*) neu chadw gwybodaeth berthnasol yn ôl a allai beri gofid iddynt neu efallai na fyddant yn dymuno clywed (gweler *paragraff 28*). Mae'n golygu:
- a** cyfathrebu mewn ffordd sensitif ac ystyriol, yn enwedig pan fyddwch yn rhannu gwybodaeth am faterion allai beri gofid am brognosis a gofal y claf
 - b** gwrando ar gleifion, gan gydnabod eu gwybodaeth a'u profiad o'u hiechyd, a chydabod eu pryderon
 - c** ceisio peidio ffurfio tybiaethau am yr hyn y bydd y claf yn ei ystyried yn arwyddocaol neu'r pwys y byddant yn ei roi ar wahanol ganlyniadau
 - d** bod yn fodlon esbonio eich rhesymau dros y dewisiadau yr ydych yn eu cynnig (a'r dewisiadau nad ydych yn eu cynnig) ac unrhyw argymhellion y byddwch yn eu gwneud
 - e** cydnabod y gallai cleifion fod yn agored i niwed, hyd yn oed os nad ydynt yn ymddangos felly
 - f** bod yn effro i arwyddion poen neu ofid, a chymryd camau i leddfu poen a gofid, os yw gwellhad yn bosibl neu beidio.

Cynorthwyo cleifion i wneud penderfyniadau am driniaeth a gofal

- 24** Mae gan bob claf yr hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal, a chael eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus os ydynt yn gallu gwneud hynny. Rhaid i chi gychwyn gyda'r rhagdybiaeth bod pob claf sy'n oedolyn yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal.
- 25** Rhaid i chi fod yn fodlon bod gennych ganiatâd neu awdurdod dilys arall cyn archwilio neu drin cleifion, neu gynnwys cleifion neu wirfoddolwyr mewn gwaith addysgu neu ymchwil. Rhoddir mwy o fanylion am hyn yn ein canllawiau *Gwneud penderfyniadau a chydsynio*, y mae'n rhaid i chi eu dilyn.
- 26** Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'ch dyletswyddau cyfreithiol a moesegol sy'n ymwneud â chaniatâd a galluedd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi:
- a** bod yn ymwybodol o'r gyfraith berthnasol am alluedd ac iechyd meddwl
 - b** ystyried codau ymarfer perthnasol

c dilyn ein canllawiau *Gwneud penderfyniadau a chaniatâd*.

- 27** Wrth drin cleifion sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes, rhaid i chi ddilyn ein canllawiau mwy manwl ar *Driniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes: arfer da wrth wneud penderfyniadau*.

Rhannu gwybodaeth gyda chleifion

- 28** Mae cyfnewid gwybodaeth rhwng gweithwyr meddygol proffesiynol a chleifion yn rhan ganolog o wneud penderfyniadau da. Rhaid i chi roi'r wybodaeth i gleifion y maent yn dymuno ei chael neu y mae angen iddynt ei chael mewn ffordd y gallant ei deall. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am:
- a eu cyflwr(cyflyrau), ei ddatblygiad tebygol, ac unrhyw ansicrwydd ynghylch diagnosis a phrognosis
 - b y dewisiadau er mwyn trin neu reoli'r cyflwr(cyflyrau), gan gynnwys y dewis o beidio cymryd unrhyw gamau
 - c y buddion posibl, risgiau o niwed, ansicrwydd ynghylch, a thebygolrwydd llwyddiant ar gyfer pob dewis.
- 29** Rhaid i chi wrando ar gleifion ac annog deialog agored am eu hiechyd, gan ofyn cwestiynau er mwyn caniatáu iddynt fynegi'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, ac ymateb yn onest i'w cwestiynau.
- 30** Rhaid i chi sicrhau bod y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i gleifion yn glir, yn gywir ac yn gyfredol ac wedi'i seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.
- 31** Dylech wirio dealltwriaeth cleifion o'r wybodaeth a roddwyd iddynt, gan wneud eich gorau i sicrhau eu bod yn cael yr amser a'r cymorth y mae ei angen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus os ydynt yn gallu gwneud hynny.
- 32** Rhaid i chi gymryd camau i fodloni anghenion iaith a chyfathrebu cleifion, fel y gallwch eu cynorthwyo i gymryd rhan mewn deialog ystyrlon a gwneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal. Dylai'r camau y byddwch yn eu cymryd fod yn rhai cymesur dan yr amgylchiadau, gan gynnwys anghenion y claf a difrifoldeb eu cyflwr(cyflyrau), natur frys y sefyllfa ac argaeledd adnoddau.
- 33** Rhaid i chi ystyried ac ymateb i anghenion cleifion sydd â namau neu anableddau. Nid yw pob nam ac anabledd yn hawdd i'w hadnabod, felly dylech ofyn i gleifion pa gymorth y mae ei angen arnynt, a chynnig addasiadau rhesymol sy'n gymesur â'r amgylchiadau.

-
- 34** Rhaid i chi drin pob claf fel unigolyn. Rhaid i chi beidio â dibynnu ar ragdybiaethau am y dewisiadau o ran triniaeth neu'r canlyniadau y bydd claf yn eu ffafrio, neu'r ffactorau y byddant yn eu hystyried yn arwyddocaol.
- 35** Os gofynnir i gleifion gytuno bod yn rhan o waith addysgu neu waith ymchwil, rhaid i chi rannu unrhyw wybodaeth y bydd ei hangen arnynt er mwyn gwneud penderfyniad ac mae'n rhaid i chi ddilyn y canllawiau ym mharagraff 85 ac yn ein canllawiau mwy manwl am *Arfer da mewn ymchwil*.
- 36** Rhaid i chi fod yn agored ac yn onest gyda chleifion am unrhyw fuddiannau sydd gennych chi y gallent effeithio (neu gael eu hystyried fel eu bod yn effeithio), ar y ffordd yr ydych yn cynnig, yn darparu neu'n presgripsiynu triniaethau, neu'n cyfeirio cleifion. Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau mwy manwl am *Adnabod a rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau*.

Cyfathrebu gyda'r rhai sy'n agos at glaf

- 37** Rhaid i chi fod yn ystyriol ac yn dosturiol tuag at y rhai sy'n agos at glaf a bod yn sensitif ac yn ymatebol wrth roi cymorth a gwybodaeth iddynt. Rhaid i chi ddilyn ein canllaw mwy manwl am *Gyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion*.

Gofalu am y claf cyfan

- 38** Rhaid i chi gynorthwyo cleifion i ofalu am eu hunain a'u grymuso i wella a chynnal eu hiechyd. Gallai hyn gynnwys:
- a** eu helpu i fanteisio ar wybodaeth a chymorth er mwyn rheoli eu hiechyd yn llwyddiannus
 - b** eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau sy'n gwella eu hiechyd a'u lles.
- 39** Dylech holi cleifion am unrhyw ofal neu driniaeth arall y maent yn eu derbyn – gan gynnwys meddyginiaethau dros y cownter – gan wirio bod unrhyw ofal neu driniaeth yr ydych chi'n ei gynnig, yn ei ddarparu neu'n ei ragnodi yn gydnaws.
- 40** Os yw claf yn cymryd meddyginiaethau lluosog, dylech drafod pwysigrwydd adolygiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y meddyginiaethau yn parhau i ddiwallu anghenion y claf a'u bod yn cael eu hoptimeiddio ar eu cyfer. Dylech ystyried effaith gyffredinol triniaethau'r claf, ac a yw'r manteision yn gwrthbwysu unrhyw risg o niwed.

Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o ddioddef niwed

- 41** Rhaid i chi ystyried anghenion a lles pobl (oedolion, plant a phobl ifanc) y gallent fod yn agored i niwed, a chynnig help iddynt os ydych chi'n credu bod eu hawlau yn cael eu cam-drin neu'n cael eu gwrthod. Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau mwy manwl am *Ddiogelu plant a phobl ifanc a 0-18 oed*.
- 42** Rhaid i chi weithredu yn ddi-oed² ynghylch unrhyw bryderon sydd gennych am glaf – neu rywun sy'n agos iddynt – y gallent fod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu y maent yn cael eu cam-drin neu'n cael eu hesgeuluso.

Helpu mewn argyfyngau

- 43** Rhaid i chi gynnig help mewn argyfwng, gan ystyried eich diogelwch, eich cymhwysedd, ac argaeledd dewisiadau gofal eraill .

Sicrhau bod cleifion sy'n peri risg niwed i eraill yn gallu manteisio ar ofal priodol

- 44** Rhaid i chi beidio â gwrthod gofal i gleifion gan bod eu cyflwr yn rhoi eraill mewn perygl. Os bydd claf yn peryglu eich iechyd neu'ch diogelwch chi, dylech gymryd yr holl gamau sydd ar gael i leihau'r risg gymaint ag y bo modd cyn darparu triniaeth eich hun, neu wneud trefniadau amgen i'r claf fanteisio ar ofal er mwyn diwallu eu hanghenion.

Bod yn agored os bydd pethau yn mynd o le

- 45** Rhaid i chi fod yn agored ac yn onest gyda chleifion os bydd pethau yn mynd o le. Os bydd claf dan eich gofal wedi dioddef niwed neu ofid, mae'n rhaid i chi ddilyn ein canllawiau am *Weithredu mewn ffordd agored a gonest pan fydd pethau yn mynd o'i le: dyletswydd broffesiynol gonestrwydd*, a dylech:

- a** unioni'r mater, os oes modd

² Gweler ein cyngor hwb moesegol ar ddiogelu oedolion a gallwch ddod o hyd iddo yn <https://www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-hub/adult-safeguarding>

-
- b** ymddiheuro (nid yw ymddiheuro ynddo'i hun yn golygu eich bod yn cyfaddef atebolrwydd cyfreithiol am yr hyn sydd wedi digwydd)
 - c** rhoi esboniad llawn a phrydlon o'r hyn sydd wedi digwydd a'r effeithiau tebygol dros y tymor byr a'r tymor hir
 - d** adrodd am y digwyddiad yn unol â pholisi eich sefydliad, fel y bydd modd ei adolygu neu ei ymchwilio pan fo hynny'n briodol – a bydd modd dysgu gwersi a diogelu cleifion rhag niwed yn y dyfodol.
- 46** Rhaid i chi ymateb mewn ffordd brydlon, llawn a gonest i gwynion. Rhaid i chi beidio â chaniatáu i gŵyn claf gael effaith niweidiol ar y gofal neu'r driniaeth yr ydych yn ei darparu neu'n ei threfnu.
- 47** Dim ond pan fydd diffyg ymddiriedaeth rhyngoch chi a'r claf yn golygu na allwch barhau i ddarparu gofal clinigol da iddynt y dylech ddod â pherthynas broffesiynol gyda'r claf i ben. Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau mwy manwl am *Derfynu'ch perthynas broffesiynol gyda chlaf*.

Maes 3: Cydweithwyr, diwylliant a diogelwch

Cyflwyniad

Caiff diwylliant ei bennu gan y gwerthoedd a'r ymddygiad a rennir gan grŵp o bobl. Mae gan bawb yr hawl i weithio a hyfforddi mewn amgylchedd sy'n deg, sy'n rhydd rhag gwahaniaethu a lle y cânt eu parchu a'u gwerthfawrogi fel unigolyn.

Mae gweithwyr meddygol proffesiynol da yn cyfathrebu mewn ffordd glir ac yn gweithio mewn ffordd effeithiol gyda chydweithwyr er budd cleifion. Maent yn meithrin eu hunan-ymwybyddiaeth, yn rheoli eu heffaith ar eraill, ac yn gwneud yr hyn y gallant ei wneud er mwyn helpu i greu diwylliannau moesgar a thosturiol lle y gall yr holl staff ofyn cwestiynau, trafod camgymeriadau a mynegi pryderon mewn ffordd ddiogel.

Trin cydweithwyr gyda charedigrwydd, cwrteisi a pharch

- 48** Rhaid i chi drin cydweithwyr³ gyda caredigrwydd, cwrteisi a pharch.
- 49** Er mwyn meithrin a chynnal perthnasoedd rhyngpersonol a gwaith tîm effeithiol, rhaid i chi:
- a** wrando ar gydweithwyr
 - b** cyfathrebu mewn ffordd glir, cwrtais ac ystyriol
 - c** cydnabod a dangos parch at sgiliau a chyfraniadau cydweithwyr
 - d** cydweithio gyda chydweithwyr a bod yn fodlon arwain neu ddilyn yn ôl yr amgylchiadau.
- 50** Pan fyddwch ar ddyletswydd, rhaid i chi fod yn hygyrch i gydweithwyr sy'n ceisio gwybodaeth, cyngor neu gymorth.

³ Mae 'Cydweithwyr' yn golygu unrhyw un yr ydych yn gweithio gyda nhw, os ydynt yn weithwyr meddygol proffesiynol neu beidio.

-
- 51** Rhaid i chi fod yn dosturiol tuag at gydweithwyr sy'n cael problemau gyda'u perfformiad neu eu hiechyd. Ond rhaid i chi roi diogelwch cleifion yn gyntaf bob amser.

Cyfrannu at amgylchedd gwaith a hyfforddi cadarnhaol

- 52** Rhaid i chi helpu i greu diwylliant sy'n parchu, sy'n deg, sy'n gefnogol ac sy'n dosturiol trwy fod yn esiampl o ymddygiad sy'n cyd-fynd â'r gwerthoedd hyn.
- 53** Dylech fod yn ymwybodol o'r ffordd y gallai'ch ymddygiad ddylanwadu ar eraill o fewn a thu hwnt i'r tîm.
- 54** Dylech fod yn ymwybodol o risg tuedd, gan ystyried sut y mae'ch profiad bywyd, eich diwylliant a'ch credoau chi yn dylanwadu ar eich gweithgarwch rhyngweithio gydag eraill, a sut y gallai effeithio ar eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd.
- 55** Rhaid i chi ddangos parch a sensitifrwydd tuag at brofiadau bywyd, diwylliant a chredoau eraill.
- 56** Rhaid i chi beidio â cham-drin, gwahaniaethu yn erbyn, bwllo nac aflonyddu ar unrhyw un ar sail eu nodweddion personol, neu am unrhyw reswm arall. Mae 'nodweddion personol' yn golygu ymddangosiad rhywun, eu ffordd o fyw, eu diwylliant, eu statws cymdeithasol neu economaidd, neu unrhyw rai o'r nodweddion a warchodir gan ddeddfwriaeth – oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
- 57** Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd rywiol tuag at gydweithwyr gyda'r effaith neu'r diben o achosi tramgwydd, embaras, bychanu neu ofid. Gall 'ymddwyn mewn ffordd rywiol' gynnwys – ond nid yw wedi'i gyfyngu i – sylwadau llafar neu ysgrifenedig, dangos neu rannu delweddau, yn ogystal â chyswllt corfforol digroeso. Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau manylach am *Gynnal terfynau personol a phroffesiynol*.
- 58** Os byddwch yn dyst i unrhyw ymddygiad a ddisgrifir ym *mharagraffau 56 neu 57*, dylech weithredu, gan ystyried yr amgylchiadau penodol. Er enghraifft, gallech:
- a** gysylltu a chynnig cymorth i unrhyw un sy'n cael eu targedu neu sy'n cael eu heffeithio gan yr ymddygiad, a/neu roi gwybod iddynt eich bod yn teimlo bod yr ymddygiad yr ydych chi wedi bod yn dyst iddo yn annerbyniol
 - b** herio'r ymddygiad trwy siarad gyda'r unigolyn cyfrifol – naill ai ar y pryd, os yw hi'n ddiogel gwneud hynny, neu mewn man ac ar amser priodol
 - c** siarad gyda chydweithiwr a/neu ystyried adrodd am yr ymddygiad yn unol â pholisi eich gweithle a'n canllawiau mwy manwl ynghylch *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch*. Cyn i chi adrodd am yr ymddygiad y buoch yn dyst

iddo, ceisiwch sicrhau bod yr unigolyn a dargedwyd yn ymwybodol o'ch bwriad i adrodd amdano, a'u bod yn cefnogi'r bwriad hwnnw.

Rydym yn cydnabod bod rhai pobl yn ei chael hi'n anos nag eraill i *godi eu llais*⁴ ond mae gan bawb gyfrifoldeb – i'w hunain ac i'w cydweithwyr – i wneud rhywbeth i atal yr ymddygiad hwn rhag parhau a chyfrannu at amgylchedd negyddol, anniogel.

- 59** Os oes gennych chi rôl arwain neu reoli ffurfiol ac rydych yn dyst i – neu'n cael eich hysbysu o – unrhyw rai o'r mathau o ymddygiad a ddisgrifir ym *mharagraffau 56 neu 57*, rhaid i chi weithredu. Rhaid i chi:
- a. sicrhau y rhoddir sylw digonol i ymddygiad o'r fath
 - b. sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi lle bo angen, a
 - c. sicrhau y rhoddir sylw prydlon i bryderon, a'u huwchgyfeirio lle bo angen.

Dangos ymddygiad arwain

- 60** Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau mwy manwl am *Arweinyddiaeth a rheoli*.
- 61** Rhaid i chi sicrhau bod yr holl gydweithwyr yr ydych yn goruchwyllo eu gwaith yn cael goruchwyliaeth briodol.
- 62** Rhaid i chi fod yn fanwl, yn deg ac yn wrthrychol wrth ysgrifennu geirda, ac wrth arfarnu neu asesu perfformiad cydweithwyr, gan gynnwys meddygon locwm a myfyrwyr. Ni ddylech hepgor unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i gymhwysedd, perfformiad ac ymddygiad eich cydweithwyr.
- 63** Dylech fod yn fodlon cynnig cymorth proffesiynol i gydweithwyr, gan gynnwys myfyrwyr, er enghraifft trwy gyfrwng mentora, addysgu neu hyfforddi. Mae'r math hwn o gymorth yn arbennig o bwysig ar gyfer y rhai y mae ymarfer yn y DU yn brofiad newydd iddynt, y rhai sy'n dychwelyd ar ôl cyfnod i ffwrdd o ymarfer, a'r rhai nad ydynt yn gallu manteisio ar gymorth yn hawdd.

⁴ Gweler ein cyngor hwb moesegol ar Godi llais a gallwch ddod o hyd iddo yn <https://www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-hub/speaking-up>

-
- 64** Os yw rhan o'ch rôl yn ymwneud â helpu staff i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant, datblygu a chyflogaeth, dylech wneud hyn mewn ffordd deg.

Cyfrannu at barhad gofal

- 65** Mae parhad gofal yn bwysig i bob claf, ond yn enwedig i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd dilyn eu llwybr gofal iechyd eu hunain neu eirioli dros eu hunain. Mae parhad yn arbennig o bwysig pan rennir gofal rhwng timau, rhwng gwahanol aelodau o'r un tîm, neu pan drosglwyddir cleifion rhwng darparwyr gofal.
- a** Rhaid i chi rannu'r holl wybodaeth berthnasol am gleifion (gan gynnwys unrhyw addasiadau rhesymol a dewisiadau o ran cymorth cyfathrebu) gydag eraill sy'n ymwneud â'u gofal, o fewn ac ar draws timau, yn ôl y gofyn.
 - b** Rhaid i rhannu gwybodaeth gyda chleifion⁵ am:
 - i. gynnydd eu gofal
 - ii. y sawl sy'n gyfrifol am ba agwedd o'u gofal
 - iii. enw'r tîm neu'r clinigydd arweiniol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros eu gofal.
 - c** Rhaid i chi fod yn hyderus bod y wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer gofal parhaus wedi cael ei rhannu:
 - i. cyn i chi fynd oddi ar ddyletswydd
 - ii. cyn i chi ddirprwyo gofal, neu
 - iii. cyn i chi gyfeirio'r claf at ddarparwr iechyd neu ofal cymdeithasol arall.
 - d** Rhaid i chi sicrhau, pan fo hynny'n ymarferol, bod tîm neu glinigydd penodol wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb pan fydd eich rôl gyda gofal claf wedi dod i ben.

⁵ Os bydd claf heb alluedd, dylid rhannu gwybodaeth gyda'r rhai sy'n meddu ar yr awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar ran claf.

Dirprwyo mewn ffordd ddiogel a phriodol

- 66** Rhaid i chi deimlo'n hyderus bod unrhyw unigolyn y byddwch yn dirprwyo iddynt yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni'r dasg yr ydych yn ei dirprwyo. Rhaid i chi roi cyfarwyddiadau clir iddynt a'u hannog i ofyn cwestiynau a cheisio cymorth neu oruchwyliaeth os bydd ei hangen arnynt.
- 67** Os bydd cydweithiwr yn dirprwyo tasg i chi ond nid ydych chi'n teimlo'n hyderus eich bod yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau neu'r hyfforddiant i'w chyflawni yn ddiogel, rhaid i chi flaenoriaethu diogelwch y claf a cheisio cymorth, hyd yn oed os byddwch eisoes wedi cytuno i gyflawni'r dasg yn annibynnol.
- 68** Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau mwy manwl, *Dirprwyo a chyfeirio*.

Cofnodi eich gwaith mewn ffordd glir, manwl a darllenadwy

- 69** Rhaid i chi sicrhau bod cofnodion ffurfiol o'ch gwaith (gan gynnwys cofnodion cleifion) yn glir, yn fanwl, yn gyfoes⁶ ac yn ddarllenadwy.
- 70** Dylech fabwysiadu dull gweithredu cymesur tuag at lefel y manylder ond fel arfer, dylai cofnodion cleifion gynnwys:
- a** canfyddiadau clinigol perthnasol
 - b** cyffuriau, ymchwiliadau neu driniaethau a gynigiwyd, a ddarparwyd neu a ragnodwyd
 - c** y wybodaeth a rannwyd gyda chleifion
 - d** pryderon neu ddewisiadau a fynegwyd gan y claf, y gallent fod yn berthnasol i'w gofal parhaus, ac a aethpwyd i'r afael â'r rhain
 - e** gwybodaeth am unrhyw addasiadau rhesymol a dewisiadau o ran cymorth cyfathrebu
 - f** penderfyniadau a wnaethpwyd, camau gweithredu y cytunwyd arnynt (gan gynnwys penderfyniadau i beidio gwneud unrhyw beth) a phryd/a ddylai penderfyniadau gael eu hadolygu

⁶ Mae cyfoes yn golygu creu cofnodion ar yr un pryd â'r digwyddiadau yr ydych yn eu cofnodi, neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny.

g pwy sy'n creu'r cofnod a phryd.

- 71** Rhaid i chi gadw cofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol am gleifion, cydweithwyr neu eraill mewn ffordd ddiogel, ac yn unol ag unrhyw ofynion cyfraith diogelu data, a rhaid i chi ddilyn ein canllawiau ynghylch *Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion*.

Cadw cleifion yn ddiogel

- 72** Dylech fod yn gyfarwydd gyda a defnyddio'r strwythurau a'r prosesau llywodraethu clinigol a rheoli risg mewn unrhyw sefydliad yr ydych yn gweithio iddo neu yr ydych yn cael eich contractio iddo.

- 73** Er mwyn helpu i gadw cleifion yn ddiogel, rhaid i chi:

- a** gyfrannu at ymchwiliadau cyfrinachol⁷
- b** cyfrannu at adnabod digwyddiadau niweidiol
- c** adrodd am ddigwyddiadau andwyol sy'n cynnwys dyfeisiau meddygol (gan gynnwys meddalwedd, profion diagnostig, ac offer digidol) sy'n peryglu diogelwch claf neu unigolyn arall, neu sydd â'r potensial i wneud hynny
- d** cyfrannu at adolygiadau a/neu ymchwiliadau i ddigwyddiadau
- e** adrodd am adweithiau niweidiol i gyffuriau a amheuir
- f** ymateb i geisiadau gan sefydliadau sy'n monitro iechyd y cyhoedd.

Wrth ddarparu gwybodaeth at y dibenion hyn, rhaid i chi ddilyn ein canllawiau am *Gyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion*.

- 74** Rhaid i chi ymgymryd ag unrhyw swydd yr ydych chi wedi ei derbyn, gweithio unrhyw sifft yr ydych wedi cytuno ei gweithio, a gweithio eich cyfnod rhybudd cytundebol cyn gadael swydd, oni bai bod gan y cyflogwr amser rhesymol i wneud trefniadau eraill neu os bydd eich amgylchiadau personol yn atal hyn.

⁷ Mae ymchwiliad cyfrinachol yn ddull o ymchwilio i ddigwyddiadau niweidiol heb briodoli bai. Mae enghreifftiau yn cynnwys [NCEPOD – Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion](#), [CIPOLD \(Ymchwiliad Cyfrinachol i Farwolaethau Cyn-amserol pobl ag Anableddau Dysgu\)](#) ac [Ymchwiliad Cyfrinachol i Farwolaethau Mamol i MBRRACE-UK i NPEU \(ox.ac.uk\)](#)

Ymateb i risgiau diogelwch

- 75** Rhaid i chi weithredu yn ddi-oed os ydych yn credu bod diogelwch neu urddas claf mewn perygl difrifol, neu y gallai fod mewn perygl difrifol.
- a** Os na fydd claf yn cael gofal sylfaenol i fodloni eu hanghenion, rhaid i chi weithredu er mwyn sicrhau bod y claf yn cael gofal cyn gynted ag y bo modd, er enghraifft trwy ofyn i rywun sy'n darparu gofal sylfaenol i roi sylw i'r claf ar unwaith.
 - b** Os bydd cleifion mewn perygl oherwydd safle, offer neu adnoddau eraill, polisïau neu systemau sy'n annigonol, dylech ddiogelu cleifion yn y lle cyntaf a chywiro'r mater os oes modd. Yna, rhaid i chi fynegi eich pryder yn unol â pholisi eich gweithle a'n canllawiau mwy manwl, sef *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch*.
 - c** Os bydd gennych chi bryderon nad yw cydweithiwr yn addas i ymarfer efallai, ac y gallent fod yn rhoi cleifion mewn perygl, rhaid i chi ofyn am gyngor gan gydweithiwr, eich corff amddiffyn, neu ni. Os ydych yn dal yn bryderus, rhaid i chi adrodd am hyn, yn unol â pholisi eich gweithle a'n canllawiau mwy manwl, sef *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch*.
- 76** Os oes gennych chi rôl arwain neu reoli ffurfiol, rhaid i chi gymryd camau gweithredol i greu amgylchedd lle y gall pobl siarad am gamgymeriadau a phryderon mewn ffordd ddiogel. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y rhoddir sylw prydlon a digonol i unrhyw bryderon a godir gyda chi, yn unol â pholisi eich gweithle a'n canllaw mwy manwl, sef *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch*.

Rheoli risgiau a achosir gan eich iechyd

- 77** Dylech osgoi ceisio gofal meddygol gan aelod o'ch teulu neu unrhyw un yr ydych yn gweithio'n agos gyda nhw. Os ydych wedi cofrestru gyda meddyg teulu, dylai fod yn rhywun y tu allan i'ch teulu a'ch gweithle.
- 78** Dylech geisio gofalu am eich iechyd a'ch lles eich hun, gan gydnabod os nad ydych efallai'n ffit i weithio. Dylech geisio cyngor proffesiynol annibynnol am eich ffitrwydd i weithio, yn hytrach na dibynnu ar eich asesiad eich hun.
- 79** Rhaid i chi ymgynghori â gweithiwr proffesiynol â chymwysterau addas, a dilyn eu cyngor am unrhyw newidiadau i'ch ymarfer sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw:
- a** os ydych yn gwybod neu'n amau bod gennych chi gyflwr difrifol y gallech ei drosglwyddo i gleifion
 - b** os allai cyflwr neu driniaeth effeithio ar eich barn neu'ch perfformiad.

Rhaid i chi beidio â dibynnu ar eich asesiad eich hun o'r risg i gleifion.

- 80** Dylech gael eich imiwneiddio yn erbyn clefydau trosglwyddadwy difrifol cyffredin (oni bai y cynghorir yn erbyn hyn).

Maes 4: Ymddiriedaeth a phroffesiynoldeb

Cyflwyniad

Rhaid i gleifion allu ymddiried mewn gweithwyr meddygol proffesiynol gyda'u bywydau a'u hiechyd, ac mae'n rhaid i weithwyr meddygol proffesiynol allu ymddiried yn ei gilydd.

Mae gweithwyr meddygol proffesiynol da yn arddel safonau ymddygiad personol a phroffesiynol uchel. Maent yn onest ac yn ddibynadwy, yn gweithredu gydag uniondeb, yn cynnal terfynau proffesiynol ac ni fyddant yn gadael i'w buddiannau personol effeithio ar eu barn neu eu gweithredoedd proffesiynol.

Gweithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb

- 81** Rhaid i chi sicrhau bod eich ymddygiad yn cyfiawnhau ymddiriedaeth cleifion ynoch chi ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn eich proffesiwn.
- 82** Rhaid i chi wastad fod yn onest am eich profiad, eich cymwysterau a'ch rôl bresennol. Dylech eich cyflwyno eich hun i gleifion ac esbonio beth yw eich rôl chi yn eu gofal.
- 83** Os bydd claf, cydweithiwr, neu unrhyw un arall yr ydych yn cael cyswllt gyda nhw yn eich rôl broffesiynol yn gofyn am eich enw cofrestredig a/neu gyfeirnod CMC, rhaid i chi roi'r wybodaeth hon iddynt.
- 84** Rhaid i chi fod yn onest wrth ymwneud yn ariannol ac yn fasnachol gyda chleifion, cyflogwyr, yswirwyr, indemniwyr a sefydliadau neu unigolion eraill.

Gweithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb mewn gwaith ymchwil

- 85** Wrth gynllunio, trefnu neu gyflawni gwaith ymchwil, rhaid i chi roi buddiannau'r cyfranogwyr yn gyntaf. Rhaid i chi weithredu gyda gonestrwydd ac uniondeb, gan ddilyn canllawiau cenedlaethol ar gyfer llywodraethu gwaith ymchwil a'n canllawiau mwy manwl, *Arfer da mewn ymchwil*.

Cynnal terfynau proffesiynol

- 86** Rhaid i chi beidio â gweithredu mewn ffordd rywiol tuag at gleifion na defnyddio eich safle proffesiynol i ganlyn perthynas rywiol neu emosiynol amhriodol gyda chlaf neu rywun sy'n agos iddynt. Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau mwy manwl ar *Gynnal terfyn personol a phroffesiynol*.

-
- 87** Rhaid i chi beidio â mynegi eich credoau personol (gan gynnwys credoau gwleidyddol, crefyddol a moesol) i gleifion mewn ffyrdd sy'n manteisio ar eu bregusrwydd neu a allai yn rhesymol beri gofid iddynt. Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau mwy manwl ar *Gredoau personol ac arfer meddygol*.

Cyfathrebu fel gweithiwr meddygol proffesiynol

Pob cyfathrebu proffesiynol

- 88** Rhaid i chi fod yn onest ac yn ddibynadwy, gan gynnal cyfrinachedd cleifion yn eich holl gyfathrebu proffesiynol ysgrifenedig, llafar a digidol.
- 89** Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei chyfleu fel gweithiwr meddygol proffesiynol yn fanwl, ac nad yw'n ffug neu'n gamarweiniol. Mae hyn yn golygu:
- a** bod yn rhaid i chi gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir
 - b** bod yn rhaid i chi beidio â hepgor unrhyw wybodaeth berthnasol yn fwriadol
 - c** bod yn rhaid i chi beidio â lleihau neu fychanu risgiau niwed
 - d** bod yn rhaid i chi beidio â chyflwyno barn fel ffaith ddiamau.

Cyfathrebu proffesiynol cyhoeddus, gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol, hysbysebu, hyrwyddo, a chymeradwyo

- 90** Wrth gyfathrebu mewn ffordd gyhoeddus fel gweithiwr meddygol proffesiynol – gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol, hysbysebu eich gwasanaethau, a hyrwyddo neu gymeradwyo unrhyw wasanaethau neu gynnyrch:
- a** rhaid i chi ddilyn yr arweiniad ym mharagraff 88 a 89
 - b** rhaid i chi ddatgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau
 - c** rhaid i chi beidio â manteisio ar fregusrwydd neu ddiffyg gwybodaeth feddygol pobl
 - d** rhaid i chi sicrhau bod yr hyn y byddwch yn ei gyfathrebu yn cyd-fynd â'ch dyletswydd i hyrwyddo a diogelu iechyd cleifion a'r cyhoedd.
- 91** Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau mwy manwl, sef *Defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel gweithiwr meddygol proffesiynol*.

Rhoi tystiolaeth a chyflawni rôl tyst

- 92** Wrth roi tystiolaeth neu gyflawni rôl tyst, rhaid i chi ddilyn y canllawiau ym mharagraffau 88 i 90 a'n canllawiau mwy manwl am *Darparu datganiadau tyst neu dystiolaeth arbenigol fel rhan o achosion cyfreithiol*, ac mae'n rhaid i chi nodi terfynau eich gwybodaeth a'ch arbenigedd yn glir.

Cyfathrebu preifat

- 93** Wrth gyfathrebu yn breifat, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau negeseua gwib, dylech gofio y gallai negeseuon neu gyfathrebu arall mewn grwpiau preifat ddod yn gyhoeddus.

Rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau

- 94** Mae'n rhaid i chi beidio â chaniatáu i unrhyw fuddiannau sydd gennych i effeithio ar neu i ymddangos eu bod yn effeithio ar y ffordd yr ydych yn cynnig, yn darparu neu'n presgripsiynu triniaethau, yn cyfeirio cleifion, neu'n comisiynu gwasanaethau.
- 95** Os byddwch yn wynebu gwrthdaro rhwng buddiannau, rhaid i chi fod yn agored amdano gyda chleifion a chyflogwyr, ei ddatgan yn unol â threfniadau lleol, a bod yn barod i eithrio eich hun rhag gwneud penderfyniadau. Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau mwy manwl yn *Nodi a rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau*.
- 96** Rhaid i chi beidio â gofyn am na derbyn – gan gleifion, cydweithwyr neu eraill – unrhyw daliadau cymhelliant, rhoddion na lletygarwch y gallai effeithio ar neu ymddangos ei fod yn effeithio ar y ffordd yr ydych chi'n cynnig, yn darparu neu'n rhagnodi triniaethau, yn cyfeirio neu'n comisiynu gwasanaethau i gleifion. Rhaid i chi beidio â chynnig cymhellion o'r fath i eraill.
- 97** Pryd bynnag y bo modd, rhaid i chi osgoi darparu gofal meddygol i'ch hun neu i unrhyw un y mae gennych chi berthynas bersonol agos â nhw. Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau mwy manwl am *Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau*.

Cydweithredu gyda gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol

- 98** Er mwyn cynnal diogelwch cleifion, rhaid i chi gydweithredu gydag ymchwiliadau ffurfiol, ymchwiliadau i ddiogelwch cleifion, a gweithdrefnau cwyno. Rhaid i chi ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol a bod yn agored ac yn onest.
- 99** Rhaid i chi ddweud wrthym yn ddi-oed os bydd unrhyw rai o'r canlynol yn wir unrhyw le yn y byd:
- a** rydych chi wedi cael rhybudd (neu rywbeth cyfatebol) gan awdurdod erlyn

-
- b** rydych wedi cael eich cyhuddo o gyflawni trosedd yn bersonol neu yn y post
 - c** rydych wedi cael eich canfod yn euog o gyflawni trosedd
 - d** rydych wedi cael eich beirniadu gan ymchwiliad swyddogol⁸
 - e** mae corff proffesiynol arall wedi gwneud canfyddiad yn erbyn eich cofrestriad o ganlyniad i weithdrefnau addasrwydd i ymarfer.

Gweler ein canllawiau am *Roi gwybod am achosion troseddol a rheoleiddiol* am wybodaeth fanylach.

- 100** Os cewch eich gwahardd gan sefydliad o rôl neu swydd gofal iechyd sy'n gofyn am gofrestrriad proffesiynol, neu os gosodir cyfyngiadau ar eich ymarfer, rhaid i chi hysbysu, yn ddi-oed, unrhyw sefydliadau yr ydych chi'n cyflawni gwaith meddygol ar eu cyfer, ynghyd ag unrhyw gleifion yr ydych yn eu gweld yn annibynnol ar y sefydliadau hyn.
- 101** Rhaid i chi sicrhau bod gennych chi yswiriant neu indemniad priodol a digonol sy'n cynnwys cwmipas llawn eich ymarfer. Dylech barhau i adolygu lefel eich yswiriant yn rheolaidd.

⁸ Mae 'ymchwiliad swyddogol' yn golygu ymchwiliad cyhoeddus neu ffurfiol neu dribiwnlys cyhoeddus. Ariannir y rhain gan arian cyhoeddus, maent yn ymchwilio i faterion er budd y cyhoedd ac yn cyhoeddi eu canfyddiadau. Gweler ein canllaw mwy manwl am [Adrodd am achosion troseddol a rheoleiddiol](#) am ragor o wybodaeth

Troednodiadau

- 1 Nid yw hyn yn gymwys i feddygon ar y gofrestr feddygol heb drwydded i ymarfer.
- 2 Gweler ein cyngor hwb moesegol ar ddiogelu oedolion a gallwch ddod o hyd iddo yn <https://www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-hub/adult-safeguarding>
- 3 Mae 'Cydwethwyr' yn golygu unrhyw un yr ydych yn gweithio gyda nhw, os ydynt yn weithiwr meddygol proffesiynol neu beidio.
- 4 Gweler ein cyngor hwb moesegol ar Godi llais a gallwch ddod o hyd iddo yn <https://www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-hub/speaking-up>
- 5 Os bydd claf heb alluedd, dylid rhannu gwybodaeth gyda'r rhai sy'n meddu ar yr awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar ran claf.
- 6 Mae cyfoes yn golygu creu cofnodion ar yr un pryd â'r digwyddiadau yr ydych yn eu cofnodi, neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny.
- 7 Mae ymchwiliad cyfrinachol yn ddull o ymchwilio i ddigwyddiadau niweidiol heb briodoli bai. Mae enghreifftiau yn cynnwys [NCEPOD – Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion](#), [CIPOLD \(Ymchwiliad Cyfrinachol i Farwolaethau Cyn-amserol pobl ag Anableddau Dysgu\)](#) ac [Ymchwiliad Cyfrinachol i Farwolaethau Mamol I MBRRACE-UK I NPEU \(ox.ac.uk\)](#)
- 8 Mae 'ymchwiliad swyddogol' yn golygu ymchwiliad cyhoeddus neu ffurfiol neu dribiwnlys cyhoeddus. Ariannir y rhain gan arian cyhoeddus, maent yn ymchwilio i faterion er budd y cyhoedd ac yn cyhoeddi eu canfyddiadau. Gweler ein canllawiau mwy manwl am [Roi gwybod am achosion troseddol a rheoleiddiol](#) am ragor o wybodaeth

E-bost: **gmc@gmc-uk.org**

Wefan: **gmc-uk.org**

Ffôn: **0161 923 6602**

Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **ffoniwch 18001** yna **0161 923 6602** i
ddefnyddio'r gwasanaeth Cyfleu Testun.

Ymunwch â'r sgwrs

 **[@gmcuk](https://twitter.com/gmcuk)**  **facebook.com/gmcuk**
 **linkd.in/gmcuk**  **youtube.com/gmcuktv**

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, ffoniwch ni
ar **0161 923 6602** neu e-bostiwch ni ar **gmc@gmc-uk.org**.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn
Gymraeg, heb i hyn achosi oedi ychwanegol.

Cyhoeddwyd Ionawr 2024

© 2024 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am
ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn
cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun
camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint Cyngor Meddygol
Cyffredinol dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen wedi'i chofrestru yng
Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Cod: GMC/GMP24_W/1224